# Cynllunio a rheoli datblygiad safleoedd yn y sector diwydiannau’r tir ac amgylcheddol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynllunio a rheoli datblygiad safleoedd yn y sector diwydiannau'r tir ac amgylcheddol.

Gellir datblygu safleoedd am ystod eang o resymau fel gweithgareddau masnachol, dibenion hamdden, diogelu neu gadwraeth tirwedd neu forol.

Dylech feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau sydd yn effeithio ar ddatblygiad safle, yn arbennig mewn perthynas â'r ystod eang o bolisïau, deddfwriaeth, rheoliadau a dynodiadau sydd yn effeithio ar y sector diwydiannau'r tir ac amgylcheddol.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd sydd yn ystyried ei effaith ar yr amgylchedd.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer y rheiny sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gynllunio a rheoli datblygiad safleoedd yn y sector diwydiannau'r tir ac amgylcheddol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau'r pwrpas a'r diben a fwriadwyd ar gyfer y safle yn y sector diwydiannau'r tir ac amgylcheddol
2. nodi a gwerthuso cyfleoedd a chyfyngiadau wrth gynllunio datblygiad y safle
3. asesu'r risg a allai ddigwydd wrth ddatblygu'r safle
4. cael cyngor arbenigol pan fo angen
5. creu cynlluniau datblygu sydd yn creu cydbwysedd rhwng y pwrpas a'r diben a fwriadwyd ar gyfer y safle, a'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau
6. nodi unrhyw gyfyngiadau neu ddynodiadau perthnasol sydd wedi'u sefydlu a chael unrhyw ganiatâd, cydsyniadau neu drwyddedau angenrheidiol
7. cyfathrebu gyda'r partïon â diddordeb perthnasol yn ymwneud â'r gwaith a gynlluniwyd
8. cadarnhau bod y cynlluniau yn cynnwys trefniadau ar gyfer mynediad i'r safle, diogeledd, iechyd a diogelwch, bioddiogelwch, gwaredu gwastraff, systemau cyfathrebu ac unrhyw ofynion eraill
9. cadarnhau bod cyfleusterau, gwasanaethau, cyflenwadau, cyfarpar, staffio ac unrhyw adnoddau eraill sydd eu hangen ar gael ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith yn llwyddiannus
10. creu manylebau ar gyfer y gwaith gofynnol
11. cyflwyno a chyfathrebu cynlluniau datblygu a manylebau i'r rheiny y mae angen eu hysbysu
12. cadarnhau bod asesiad risg yn cael ei gynnal a bod gweithdrefnau ar waith i ddiogelu iechyd a diogelwch y rheiny sydd yn gwneud y gwaith a defnyddwyr eraill y safle
13. rheoli datblygiad y safle, gan weithredu a gwneud newidiadau i'r cynllun lle bo angen
14. parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'r gwaith, neu wedi'u heffeithio ganddo
15. cadarnhau bod yr holl waith yn cael ei wneud yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau eich sefydliad
16. cadarnhau bod cofnodion yn cael eu cadw a'u storio fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a'ch sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y pwrpas a'r diben a fwriadwyd ar gyfer y safle yn y sector diwydiannau'r tir ac amgylcheddol a'r effaith y gallai'r datblygiad ei gael ar yr amgylchedd cyfagos
2. y cyfleoedd a'r cyfyngiadau i'w hystyried wrth gynllunio datblygiad y safle
3. pwysigrwydd asesu'r risg a allai ddigwydd wrth ddatblygu'r safle
4. sut i gydbwyso gofynion cystadleuol a allai ddigwydd oherwydd y defnydd o'r safle
5. sut a ble i gael cyngor ac arweiniad arbenigol
6. sut i ffurfio cynlluniau sy'n bodloni'r amcanion ar gyfer datblygu'r safle, gan ystyried y cyfleoedd a'r cyfyngiadau
7. goblygiadau unrhyw gyfyngiadau neu ddynodiadau perthnasol sydd wedi'u sefydlu ar y safle
8. yr amgylchiadau lle mae angen caniatâd neu drwyddedau a sut i gael y rhain
9. pwysigrwydd cyfathrebu gyda phartïon â diddordeb a'r dulliau cyfathrebu sy'n debygol o hybu dealltwriaeth
10. sut i gynllunio trefniadau ar gyfer mynediad i'r safle, diogeledd, iechyd a diogelwch, bioddiogelwch, gwaredu gwastraff, systemau cyfathrebu ac unrhyw ofynion eraill
11. sut i bennu'r cyfleusterau, gwasanaethau, cyfarpar, staffio ac adnoddau eraill sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r cynllun a sut i sicrhau eu bod ar gael pan a lle bydd eu hangen
12. pwysigrwydd creu cynlluniau a manylebau gwaith a'r fformat sy'n ofynnol ar gyfer y rhain
13. sut i gyflwyno a chyfathrebu cynlluniau a manylebau datblygu i'r rheiny y mae angen eu hysbysu
14. sut i reoli datblygiad y safle a monitro bod yr amcanion yn cael eu bodloni
15. y materion a allai godi yn ystod y gwaith datblygu a'r camau i'w cymryd
16. pwysigrwydd adolygu a diwygio'r cynllun datblygu i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni
17. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau eich sefydliad
18. y gofynion cyfreithiol perthnasol a rhai eich sefydliad ar gyfer cwblhau a storio cofnodion

## Geirfa

**Partïon â diddordeb:**

- y rheiny sydd yn uniongyrchol gysylltiedig
- y rheiny sydd wedi'u heffeithio gan y safle

**Cyfleoedd a chyfyngiadau**:

- dynodiadau safle
- adeiladau rhestredig
- asedau treftadaeth
- mynediad cyhoeddus a hawliau tramwy
- bioamrywiaeth, cynefinoedd a rhywogaethau
- presenoldeb rhywogaethau wedi'u diogelu neu ymledol nad ydynt yn gynhenid
- cytundebau amgylcheddol wedi'u hariannu gan grant
- defnydd cyfredol neu flaenorol o'r safle
- gweithgareddau eraill yn yr ardal
- ffisegol (lleoliad daearyddol, hinsawdd, daeareg)
- cyfalaf naturiol
- cynaliadwyedd
- lleihau carbon
- newid hinsawdd
- perygl o lifogydd
- gwerth natur
- amgylcheddol
- ecolegol
- cymunedau isadeiledd gwyrdd
- creu lleoedd

- ymwelwyr
- isadeiledd safle
- mynediad cyhoeddus a hawliau tramwy
- deddfwriaeth
- polisïau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang
- polisïau sefydliadol
- ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, esthetig ac economaidd
- iechyd a lles
- cost gweithredu
- adnoddau gofynnol
- grantiau, cymorthdaliadau neu ffynonellau cyllid eraill

Gallai **cyfyngiadau neu ddynodiadau safle** gynnwys**:**

- Parc Cenedlaethol
- Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)
- Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC)
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA),
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB)
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol
- Parth Cadwraeth Morol
- Safle Treftadaeth y Byd (WHS)
- Safle Archaeolegol
- Parth Perygl Nitrogen (NVZ)
- Parthau Diogelu Dŵr Yfed
- Heneb Gofrestredig (SM)
- Adeilad Rhestredig (LB)
- Parciau a Gerddi Cofrestredig (RPG)

- Maes Brwydr Cofrestredig (RB)
- Safleoedd wedi'u nodi ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (HER)
- Hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad
- Ardal hyfforddi'r fyddin

Cynllunio a rheoli datblygiad safleoedd yn y sector diwydiannau'r tir ac amgylcheddol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS41 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofalwr Tir, Rheolwr Ystadau, Rheolwyr Parciau, Rheolwr Amgylcheddol, Rheolwyr Cynhyrchu, Rheolwr Eiddo, Swyddog Polisi Amgylcheddol, Pennaeth Amgylchedd, Prif Arddwyr a Rolau Rheoli Garddwriaethol eraill |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth, Gwaith coed, Cadwraeth Amgylcheddol |
| **Geiriau Allweddol** | cynllunio; amgylcheddol; datblygiad; safleoedd |